

Gwerthusiad o Gymorth yn y Gwaith

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Rhaglen a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yw Cymorth yn y Gwaith (IWS). Dechreuodd y rhaglen ym Mehefin 2015. Dyrannwyd gwerth £4.4m o gyllid i'r rhaglen, cyllid yr ESF yw £3.0m o hyn, a daw £1.4m gan Lywodraeth Cymru. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMU) yn darparu IWS ar draws tair ardal awdurdod lleol yn ne Cymru¹, ac mae Strategaeth Dinas y Rhyl (RCS) yn gyfrifol am ei ddarparu mewn pedair ardal awdurdod lleol yn y gogledd².
- 1.2 Nod y gwasanaeth yw lleihau absenoliaeth a phresenoliaeth oherwydd salwch yn y gweithle trwy gynorthwyo absenolion (cyfranogwyr sydd wedi cyrraedd, neu y disgwylir iddynt gyrraedd pedair wythnos o absenoldeb oherwydd salwch) a phresenolion (cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn absennol o'r gwaith am gyfnod hir oherwydd salwch), trwy eu galluogi i gyrchu therapïau corfforol a/neu seicolegol â ffocws ar waith yn gyflym gyda chymorth rheolwr achosion. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo busnesau bach a chanolig (BBaCh) i wella iechyd a lles yn y gweithle hefyd.

2. Nodau'r gwaith ymchwil

- 3.2 Comisiynodd Llywodraeth Cymru Ymchwil OB3, ar y cyd â'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES), i gyflawni gwerthusiad o wasanaeth IWS. Nodau'r gwerthusiad oedd datblygu model rhesymeg ar gyfer y rhaglen, asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac adolygu effaith ganfyddedig yr ymyrraeth ar gyfranogwyr a chyflogwyr. Cyflawnwyd y gwerthusiad rhwng Mai 2017 ac Awst 2018. Roedd camau cyntaf y gwerthusiad yn

¹ Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Powys a Phen-y-bont ar Ogwr

² Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych

cynnwys datblygu Theori Newid ar gyfer IWS, ac fe'i disgrifiwyd yn adroddiad y Theori Newid³. Nod camau dilynol y gwerthusiad oedd mynd i'r afael â'r amcanion canlynol:

- asesu a chymharu gweithrediad y rhaglen mewn dwy ardal, o ran cyfranogwyr sy'n absenolion ac yn bresenolion
- asesu a chymharu gweithrediad y rhaglen mewn dwy ardal, o ran proffesiynolion, cyflogwyr, ymarferwyr cyffredinol a sefydliadau rhanddeiliaid lleol eraill
- asesu a chymharu rheolaeth prosiect y gweithgareddau mewn dwy ardal
- asesu'r effaith ganfyddedig a defnyddioldeb y gwasanaethau a ddarparwyd.

3. Y Dull

3.1 Roedd y gwerthusiad yn cynnwys:

- cyfnod cychwynnol, a oedd yn cynnwys mynychu cyfarfod cychwynnol â Grŵp Llywio'r astudiaeth a chyrchu data monitro a setiau data
- gwaith ymchwil desg a oedd yn cynnwys adolygu dogfennaeth a data monitro ar lefel weithredol
- paratoi offerynnau ymchwil a oedd yn cynnwys canllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio gydag amrywiaeth o gyfranogwyr
- asesu setiau data dienw ar gyfer cyfranogwyr sy'n cael cymorth gan RCS ac ABMU, aa ac adnabod sampl cynrychiadol o gyfranogwyr i'w gwahodd am gyfweiliad
- cynnal cyfweiliadau â 15 o unigolion a fu ynghlwm wrth reoli a darparu IWS yn RCS a 10 o unigolion yn ABMU
- cyflawni cyfweiliadau ansoddol dros y ffôn (yn bennaf) gyda chyfanswm o 53 o gleientiaid
- cynnal cyfweiliadau â chyfanswm o 15 o gyflogwyr
- cyfweld â deg cynrychiolydd o sefydliadau rhanddeiliaid lleol
- cynnal cyfweiliadau neu gael adborth ysgrifenedig gan gyfanswm o 12 cynrychiolwyr o bractisau Ymarferwyr Cyffredinol a meddygol
- cyfuno canfyddiadau'r gwaith maes a'r gwaith desg, a pharatoi adroddiad gwerthuso terfynol wedi'i adolygu gan gymheiriaid.

³ Llywodraeth Cymru (2018) [Gwerthusiad o Theori Newid Cymorth yn y Gwaith \(IWS\)](#)

3.2 Mae'r gwerthusiad yn tynnu ar safbwyntiau cyfran fach iawn o gleientiaid, ac, yn achos cleientiaid ABMU, mae nifer gyfyngedig o gyfweiliadau a gafwyd â'r cleientiaid a gynorthwywyd yn golygu ei bod hi'n anodd dod i unrhyw gasgliadau ehangach ar sail y dystiolaeth a gasglwyd. Rhaid gofalu hefyd wrth ddehongli safbwyntiau'r ymarferwyr cyffredinol a'r rhanddeiliaid lleol a gafodd gyfweiliadau am ei bod hi'n debygol taw'r rhai sydd wedi cysylltu fwyaf â'r gwasanaeth ac sy'n rhoi'r pwys mwyaf iddo fyddai'n fwyaf tebygol o gyfrannu.

4. Y Canfyddiadau allweddol

4.1 Canfu'r gwerthusiad:

- bod gwasanaeth IWS wedi cael ei fwydo'n briodol gan y dystiolaeth polisi ac ymchwil ddiweddaraf am arferion gorau mewn perthynas â gwaith ac iechyd, gan gynnwys gwaith Waddell a Burton, a'r Fonesig Carol Black, yn ogystal â thystiolaeth am gyflawni rhaglenni eraill, fel Ffit i Weithio a rhaglenni cynharach RCS ac ABMU
- erbyn Mai 2018, roedd y gwasanaeth wedi rhagori ar un o allbynnau a chanlyniadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), roedd yn tanberfformio ychydig bach yn erbyn ail un, ac roedd yn tanberfformio'n ddifrifol yn erbyn y tri dangosydd arall. Roedd y gwasanaeth wedi cysylltu â dros 3,410 o gyfranogwyr (yn erbyn targed cyffredinol o 4,232 ar gyfer y rhaglen gyfan) ond canfu'r gwerthusiad y byddai'n afrealistaidd disgwyl i'r gwasanaeth unioni'r diffyg yn ystod y tri mis oedd yn weddill o'i gyfnod ariannu
- gellir esbonio tanberfformiad sylweddol IWS mewn perthynas â'i dargedu mewn perthynas â chyflogwyr ar y sail nad oedd darpariaeth y gwasanaeth ar gyfer cyflogwyr yn bodloni gofynion WEFO o ran cofnodi allbynnau yn erbyn y targedau hyn. Yn ein barn ni, roedd y targedau a bennwyd yn uchelgeisiol ac yn afrealistaidd hefyd
- presenolion oedd y mwyafrif o gleientiaid IWS (75 y cant), tra bod lleiafrif (25 y cant) yn absenolion er bod y rhaniad yn amrywio'n sylweddol yn ôl darparydd. Gellir esbonio'r gyfran uwch na'r disgwyl o bresenolion a gynorthwywyd ar sail y ffaith na gyfeiriwyd yr absenolion a ddisgwyliwyd o'r cynllun Ffit i Weithio
- roedd y math o wasanaeth a gyrchwyd amlaf yn amrywio yn ôl darparydd contract, gyda chleientiaid RCS yn fwy tebygol o fod wedi cyrchu gwasanaethau ffisiotherapi, tra bod cleientiaid ABMU yn fwy tebygol o fod wedi cyrchu cymorth iechyd emosiynol

- roedd proffil cleientiaid ABMU ac RCS yn debyg yn nhermau rhyw ac oedran. Roedd RCS wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth gysylltu cleientiaid hunan-gyflogedig a phobl sy'n gweithio yn y sector preifat. Roedd ABMU wedi llwyddo i gysylltu cyfran uwch o gleientiaid anabl a chleientiaid o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig (BME)
- tra bod RCS ac ABMU wedi ymdrechu i gysylltu ymarferwyr cyffredinol a phroffesiynolion gofal iechyd eraill i hyrwyddo'r gwasanaeth i ddarpar-gleientiaid, llwyddodd RCS i ddiogelu ymrwymiad nifer uwch o ymarferwyr cyffredinol a dangosodd arferion da yn nhermau'r ymdrech barhaus i atgoffa ymarferwyr cyffredinol am argaeledd IWS
- dywedodd rhyw 70 y cant o gleientiaid RCS bod eu hiechyd neu eu statws yn y farchnad lafur wedi gwella wrth ymadael â'r gwasanaeth, ac roedd hi'n hysbys bod ychydig dros hanner y rhai a ymadawodd â'r gwasanaeth mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl ymadael. Dywedodd cyfran debyg o gleientiaid ABMU, 71 y cant, eu bod wedi gweld gwelliant yn eu hanhwylder iechyd, a lefelau gorbryder ac iselder oedd y newid cadarnhaol mwyaf a welwyd.

5. Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Mae'r gwerthusiad yn pennu ei gasgliadau ac yn cynnig cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Mae'r ffaith y gallai'r gwaith ymchwil fanteisio ar ganfyddiadau canfyddedig o'r effeithiau a gynigiwyd gan gleientiaid, darparwyr, ymarferwyr cyffredinol a chyflogwyr yn unig wedi cyfyngu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, sy'n ei gwneud hi'n amhosibl dod i gasgliad cadarn am effaith gyffredinol yr ymyrraeth. Mae diffyg data cymharol wedi cyfyngu ar i ba raddau y gellir priodoli unrhyw ddeilliannau y mae'r cleientiaid wedi eu nodi i IWS hefyd.
- 5.2 Yn nhermau'r dulliau gweithredu a fabwysiadodd y darparwyr contract, bu'n bosibl tynnu ar gryfderau a chyfyngiadau'r dulliau a fabwysiadwyd yn unig, am fod ffactorau allanol eraill wedi dylanwadu ar weithrediad y gwasanaeth. Casgliad y gwerthusiad oedd:
- bod y modelau a fabwysiadwyd yn wahanol iawn i'w gilydd, gyda'r naill yn cael ei arwain gan sefydliad trydydd sector gan ddefnyddio tîm craidd o staff anfeddygol a rhwydwaith o ddarparwyr dan contract, a'r llall yn cael ei ddarparu gan fwrdd iechyd gan ddefnyddio cyflogaion sydd wedi cael hyfforddiant meddygol i ddarparu pob agwedd ar y gwasanaeth

- bu modd i'r sefydliad y trydydd sector ymateb yn hyblyg i anghenion IWS a'i arianwyr, tra bu modd i'r bwrdd iechyd gynnig gwasanaeth sydd wedi ymwreiddio o fewn prosesau'r GIG
- mewn gwahanol ffyrdd, ac i wahanol raddau, bu modd i'r ddau fodel roi'r trosolion newid allweddol a glustnodwyd o fewn y Theori Newid ar waith fel rhai sy'n hanfodol i gyflawniad llwyddiannus IWS. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi gwasanaeth cymorth hyblyg personol a llwybrau cyfeirio niferus i IWS ar waith, yn ogystal (yn achos RCS) â darparu mynediad cynnar a chyflym iawn at ymyrraeth i'r cleientiaid
- roedd adborth y cleientiaid ynghylch gwasanaeth RCS yn gadarnhaol dros ben, ond nid oedd y nifer gyfyngedig o gyfweliadau a gyflawnwyd gyda chleientiaid ABMU yn caniatáu i'r gwerthusiad ddod i gasgliad cadarn am ansawdd darpariaeth y darparwyd hwn
- roedd hi'n destun pryder bod bron i hanner cleientiaid ABMU a wahoddwyd am gyfweliad yn dweud nad oeddent wedi cael cymorth gan ABMU.

5.3 Yn nhermau effaith a defnyddioldeb y cymorth a gafwyd, casgliad y gwerthusiad oedd:

- bod y deilliannau iechyd a gofnodwyd gan gleientiaid i'w gweld yn gadarnhaol, ond yn niffyg unrhyw ddata gwrth-ffeithiol neu gymharol, mae hi'n anodd dod i gasgliad pendant
- roedd yna ganfyddiad bod IWS wedi helpu i wella iechyd a lles absenolion a phresenolion fel ei gilydd, a'i fod wedi cael effaith gadarnhaol o ran nifer y diwrnodau o waith yr oedd cyflogaion yn eu colli oherwydd absenoldeb salwch, os oedd y gwasanaeth yn cael ei gyrchu'n brydlon. Canfyddiad sawl un o'r absenolion oedd bod IWS wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w gallu i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Ymhlith y deilliannau cyffredin a glustnododd y presenolion oedd gwell cynhyrchiant, y gallu i gyflawni tasgau nad oeddent yn gallu eu cyflawni o'r blaen, a dychwelyd i'w dyletswyddau llawn yn hytrach na rhai cyfyngedig yn y gwaith
- roedd rhai o'r cleientiaid a gafodd gyfweliadau'n teimlo eu bod wedi gwella eu hamgylchiadau ariannol o ganlyniad i gyrchu'r ddarpariaeth, ac yn enwedig cleientiaid hunan-gyflogedig, ac roedd sawl un yn teimlo eu bod wedi lleihau eu hangen am ddarpariaeth y GIG

- hyd yn hyn, cyfyngedig fu cyfraniad IWS at y deilliannau disgwylidig o ran cyflogwyr am fod natur yr ymyrraeth wedi bod yn ysgafn, ac mae'n annhebygol o arwain at ddeilliannau disgwylidig o'r mathau yma.

5.4 Canfu'r gwerthusiad nad oes yna wahaniaeth clir rhwng nodweddion absenolion a phresenolion yn aml, a bod eu profiadau o'r ymyrraeth yr un fath. Mabwysiadwyd diffiniad ehangach o gleientiaid sy'n 'absenolion' a chafwyd bod hyn yn groes i'r rhesymeg sylfaenol y dylai'r gwasanaeth ganolbwyntio ar y cleientiaid sydd yn y perygl mwyaf o fod yn absennol o'r gwaith am gyfnod oherwydd salwch. Casgliad y gwerthusiad yw nad yw gwahaniaethu rhwng absenolion a phresenolion wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddarparu'r gwasanaeth.

5.5 Canfu'r gwerthusiad bod yr angen am IWS wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol (h.y. diffyg yn y ddarpariaeth sydd ar gael trwy wasanaethau'r GIG a diffyg darpariaeth iechyd galwedigaethol dan arweiniad cyflogwyr). O bersbectif y cleient, canfu'r gwerthusiad bod y lefel uchel o alw am wasanaethau gan bresenolion yn ogystal ag absenolion sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith am gyfnod byr, yn codi cwestiynau o ran a yw'r gwasanaeth wedi sbarduno galw am wasanaeth ymysg y rhai a fyddai wedi cyflawni deilliannau tebyg pe na bai'r ymyrraeth ar gael.

5.6 Mae'r gwerthusiad yn argymhell bod:

- Llywodraeth Cymru'n ceisio gostwng targedau WEFO mewn perthynas â chyflogwyr am weddill cyfnod IWS fel eu bod yn adlewyrchu'r cyflawniadau cyfredol yn well
- bod Llywodraeth Cymru'n cydgysylltu â WEFO er mwyn sicrhau naill ai (a) y gellir cyfrif darpariaeth y gwasanaeth ar gyfer cyflogwyr fel deiliant cymwys neu (b) bod IWS yn adolygu ac yn gwneud newidiadau sylfaenol i'w ddarpariaeth ar gyfer cyflogwyr fel y gellir ei ystyried fel gweithgarwch cymwys o bersbectif WEFO
- bod unrhyw ymyrraeth a ddarperir gan sefydliad y GIG yn y dyfodol yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau y gall ddarparu'n ddigonol at anghenion ariannu'r gwasanaeth, gan gynnwys:
 - (a) sicrhau bod y fenter yn cael ei chyfleu i ddarpar-gleientiaid mewn ffordd briodol fel ei bod hi'n glir pwy sy'n gymwys ac yn anghymwys ar gyfer y gwasanaeth
 - (b) mabwysiadu prosesau i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol a'r wybodaeth gofrestru gan ddarpar-gleientiaid o'r cychwyn cyntaf

(c) mabwysiadu prosesau cyflymach i ddiwallu anghenion cleientiaid e.e. pennu'r terfyn uchaf ar amserau aros cyn i gleientiaid gwrdd â chynrychiolydd y gwasanaeth, a derbyn gwasanaethau wedyn

(d) dyrannu mwy o adnoddau o'r cychwyn cyntaf i hyrwyddo'r gwasanaeth i ddarpar-gleientiaid (yn enwedig gan ddefnyddio rhwydweithiau cyflogwyr a sefydliadau aelodaeth) ac ymarferwyr cyffredinol

- os bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu ymyrraeth debyg yn y dyfodol, ei bod yn canolbwyntio ar yr ardaloedd daearyddol a'r grwpiau cleientiaid mwyaf anghenus a bod yr ymyrraeth yn fwy cyson â'r rhesymeg sylfaenol ar gyfer cynorthwyo'r bobl hynny sydd wedi cyrraedd pwynt o bedair wythnos o absenoldeb
- dylai ymyrraeth yn y dyfodol gynnal elfennau o arferion da, fel ymyrraeth gynnar, pennu terfynau amser ar gyfer cyfarfod â chleientiaid a throsiant cyflym ar gyfer cymorth therapi
- dylai ymyrraeth yn y dyfodol gael adnoddau digonol o'r cychwyn cyntaf er mwyn caniatáu ar gyfer ei hyrwyddo'n effeithiol i grwpiau cyflogwyr ac ymarferwyr cyffredinol
- dylai ymyrraeth yn y dyfodol barhau i gynorthwyo anghenion cyflogwyr, ond dylai wneud hynny mewn ffordd fwy hyblyg a chydlynol fel y gellir darparu cynnig mwy cyson i gyflogwyr. Gallai hyn gynnwys darparu pecyn cymorth i gyflogwyr, a chyngor ymgynghorol unigol
- bod unrhyw werthusiad tebyg ac ymyrraeth debyg yn ymdrechu i wireddu nifer fwy o gyfsweliadau â chleientiaid er mwyn cynnig sampl cadarn; yn ystyried unrhyw ddata arolygu sydd ar gael trwy Arolwg o Gyfranogwyr yr ESF a gomisiynir gan WEFO ar gyfer gweithrediadau a ariennir gan ESF; yn ystyried ail-gyfweld â nifer fechan o gyfranogwyr er mwyn deall effaith tymor-hir cyfranogaeth, yn ystyried datblygu grŵp rheoli o gyfranogwyr er mwyn profi a ellir priodoli'r newidiadau canfyddedig a nododd y cyfranogwyr i'r ymyrraeth ac yn cydweithio â staff darparu er mwyn casglu adborth gan ymarferwyr cyffredinol ar y cyd, fel y ceir mewnbwn gan nifer uwch o ymarferwyr cyffredinol.

Awdur: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3



Bryer, N; Bebb, H; (2019). *Gwerthusiad o Gymorth yn y Gwaith*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif GSR 19/2019.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gymorth-yn-y-gwaith-adroddiad-terfynol>

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Janine Hale

Y Prif Swyddog Ymchwil

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: Ymchwil.lechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83876-136-3